



Ysgol Pentreuchaf

59. Polisi Darparu ar gyfer Plant a Ffobia Ysgol neu'n Gwrthod Mynd i'r Ysgol

1. Cyflwyniad

Mae'r polisi hwn yn ymwneud â disgyblion sydd yn dioddef o ffobia ysgol neu sy'n gwrthod mynd i'r ysgol, ac fe ddefnyddir y term plant â ffobia ysgol i gwmpasu'r ddwy garfan.

2. Cyd-destun

2.1 Nid oes gan ymarferwyr ddiffiniad clir o'r gwahaniaeth rhwng plant sy'n gwrthod mynd i'r ysgol a'r rheini sy'n dioddef o ffobia ysgol. Gellir defnyddio'r diffiniad o'r gwahaniaeth rhwng disgyblion sy'n dioddef o ffobia ysgol a'r rheini sy'n driwantiad ddefnyddir gan y Gymdeithas Genedlaethol Seicolegwyr Ysgol.

* Mae dioddefwyr ffobia ysgol/plant sy'n gwrthod mynd i'r ysgol yn aros mewn cysylltiad agos gyda'u rhieni neu'u gofawyr, tra nad yw bod mewn cysylltiad â rhieni yn peri pryder i driwantiad.

* Mae dioddefwr ffobia ysgol/plant sy'n gwrthod mynd i'r ysgol yn aml yn bryderus ac yn ofnus (ond nid bob amser), tra nad yw colli ysgol yn peri pryder i driwantiad.

* Mae dioddefwr ffobia ysgol/plant sy'n gwrthod mynd i'r ysgol yn mynd yn gas neu'n sâl pan orfodir hwy i fynd tra bod triwantiad yn ymddwyn mewn ffordd amhriodol pan orfodir hwy i fynd i'r ysgol.

2.2 Gall ymwrthod cronig ag ysgol arwain at: ddirywiad academiaidd, perthynas wael gyda chyfoedion, gwrthdaro â'r ysgol a'r gyfraith, panig, osgoi gwaith neu goleg, agoraffobia, ac anhwylderau seicolegol.

Ffactorau a allai gyfrannu tuag at achosi ffobia ysgol

* Maint a chynllun ysgol: symud o amgylch yr ysgol, ymdopi ag adeilad mawr, coridorau hir a llawn.

* Strwythur y diwrnod ysgol: gall y daith yn ôl ac ymlaen, amseroedd egwyl a chinio beri pryder.

* Cyfnod trosglwyddo a pwysau academiaidd, gwrthdaro gydag athrawon

* Ofn pynciau penodol: gall hyn fod yn arbennig o gyffredin o amlwg, yn enwedig yn achos Addysg Gorfforol, lle gall ddisgybl bryderu am ddelwedd ei gorff ac am newid ei ddillad o flaen eraill.

* Problemau cyfeillgarwch, bwlio neu canfyddiad o fwlio.

* Chwalu teulu, gwahanu ac ysgaru, digwyddiad trawmatig yn y teulu megis profedigaeth

* Rhiantu annigonol, diffyg trefn a diffyg cefnogaeth barhaus.

* Absenoldeb aml: effaith gronnu absenoldeb aml.

* Trais a chamdriniaeth yn y cartref a sefyllfaoedd lle mae disgwyl i'r plentyn ofalu am aelod arall o'r teulu

3. Datganiad o fwriad

Bydd Gwasanaeth Ysgolion Gwynedd yn cynghori a chynorthwyo ysgolion i annog a chefnogi disgyblion sy'n dioddef o ffobia ysgol neu sy'n gwrthod mynd i'r ysgol.

4. Fframwaith Statudol

4.1 Deddf Addysg 1996 4.3 Deddf Plant 2004

5. Egwyddorion Sylfaenol

5.1 I adnabod a chefnogi disgyblion â ffobia ysgol dylai ysgol sefydlu strategaethau i ganfod diffyg presenoldeb, a chymryd camau priodol yn gynnar, ar ôl ymgynghori gyda rhieni ac asiantaethau eraill.

6. Amcanion Gwasanaeth Ysgolion Gwynedd

6.1 Prif rôl Y Gwasanaeth Lles Addysg yw gwella presenoldeb yn yr ysgol, a gallant gymryd camau cyfreithiol lle bo angen. Ni fyddai hyn yn briodol yn achos ffobia ysgol. Bydd y pwysau ar roi'r gefnogaeth angenrheidiol a chynllunio ailintigreiddio i addysgu prif ffrwd, yn ddibynnol ar pa mor llwyddiannus fyddai'r gefnogaeth.

6.2 Bydd Gwasanaeth Seicolegwyr Addysg ar gael i ysgolion yn unol â'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth a wnaethbwyd rhwng yr awdurdod a'r ysgolion, i gefnogi disgyblion â ffobia ysgol.

7. Dyletswyddau Corff Llywodraethol Ysgol

7.1 Sicrhau strategaeth gwirio presenoldeb yn yr ysgol

7.2 Sicrhau ethos gadarnhaol tuag at ddisgyblion gyda ffobia ysgol

8. Arfer dda i Benaethiaid Ysgolion

8.1 Mae ymchwil gan SCYA wedi nodi nifer o arferion da sydd wedi'u mabwysiadu gan ysgolion er mwyn cefnogi disgyblion sy'n dioddef o ffobia ysgol. Mae rhain yn cynnwys:

i) Caniatau i ddisgyblion ddechrau ysgol yn hwyrach a gorffen yn gynharach, defnyddio mynedfa wahanol

ii) Rhiant yn eu casglu amser cinio

iii) Darparu "lle diogel" ar gyfer disgyblion sy'n methu â wynebu ystafelloedd dosbarth llawn

iv) Darparu cymorth ychwanegol yn y dosbarth

v) Systemau "cyfeillio" –cymorth yn yr ysgol gan ddisgybl a enwir

vi) Ail-intigreiddio graddol yn cynnwys llunio amserlenni rhan-amser wedi'eu haddasu ar gyfer yr unigolyn

8.2 Mae rhai ysgolion yn darparu uned gefnogi ar gyfer disgyblion sydd wedi datblygu ffobia ysgol. Mae unedau ar wahân yn darparu awyrgylch "diogel" a chyfle i ddisgyblion agored i niwed gefnogi'i gilydd.

8.3 Lle caiff ffobio ysgol ei nodi fel cyflwr meddygol, fel iselder ysbryd neu bryder difrifol, dylid darparu addysg yn yr un modd ag ar gyfer plant sy'n methu â mynychu oherwydd salwch

Adolygir: Chwefror 2017

Arwyddwyd: _____, Cadeirydd y Llywodraethwyr

Dyddiad: _____